

### ATODLEN 3

## Profi Ymfudiad Cyflawn a Phenodol drwy Ddefnyddio Efelychwyr Bwyd

### RHAN 2

#### Efelychwyr Bwyd i'w defnyddio mewn Profion Ymfudiad

1. Yn ddarostyngedig i Rannau 3, 4, 5 a 7, mae'r efelychwyr sydd i'w defnyddio mewn profion ymfudiad yn cael eu pennu yn y Tabl yn y paragraff hwn (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y Tabl").

1 <i>Byrfodd</i>	2 <i>Efelychydd Bwyd</i>
Efelychydd A: cyfatebol	Dŵr distyll neu ddŵr o ansawdd
Efelychydd B:	3% Asid asetic (w/v) mewn hydoddiant dyfrllyd
Efelychydd C	10% Ethanol (v/v) mewn hydoddiant dyfrllyd ac eithrio bod yn rhaid i grynodiad yr hydoddiant ethanol gael ei addasu yn ôl gwir gryfder alcoholaidd y bwyd os yw'n fwy na 10% (v/v)
Efelychydd D:	Olew olewydd coeth ac iddo'r nodweddion a bennir ym mharagraff 3 neu, yn ddarostyngedig i baragraff 5, unrhyw un neu rai o'r efelychwyr bwyd brasterog a bennir ym mharagraff 4

2. At ddibenion yr Atodlen hon ystyr cyfeiriad at fyrfodd yng ngholofn 1 yn y Tabl yw cyfeiriad at yr efelychydd yng ngholofn 1 yn y Tabl hwnnw sydd gyferbyn â'r byrfodd hwnnw.

3. Y nodweddion olew olewydd coeth y cyfeirir atynt yn y Tabl yw —

- (a) Gwerth iodid (Wijs) = 80 i 88;
- (b) Indecs plygiant ar 25°C = 1.4665 i 1.4679;
- (c) Asidedd (wedi ei fynegi fel % o asid olëig) = mwyafswm o 0.5%;
- (ch) Rhif perocsid (wedi ei fynegi fel miligfwerthoedd ocsigen fesul kg o olew) = mwyafswm o 10.

4. Yr efelychwyr bwyd brasterog y cyfeirir atynt yn y Tabl yw—

- (a) olew corn ac iddo fanylebau wedi eu safoni;
- (b) olew blodau'r haul, y mae ei nodweddion fel a ganlyn —
  - (i) Gwerth iodid (Wijs) = 120 i 145;
  - (ii) Indecs plygiant ar 20°C = 1.474 i 1.476;
  - (iii) Rhif seboneiddiad = 188 i 193;
  - (iv) Crynodiad cymharol ar 20°C = 0.918 i 0.925;
  - (v) Deunydd anseboneiddiadwy = 0.5% i 1.5%;
- (c) cymysgedd synthetig o driglyseridau y mae ei gyfansoddiad fel a nodir yn y tablau a ganlyn:

**Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

### Dosbarthiad asid brasterog

Y nifer o C-atomau mewn gweddillion asid brasterog	6	8	10	12	14	16	18	eraill
Maes GLC (%)	1	6—9	8—11	45—52	12—15	8—10	8—12	1

### Purdeb

Cynnwys monogl yseridau (yn ensymig)	<0.2%
Cynnwys diglyseridau (yn ensymig)	<2.0%
Deunydd anseboneiddiadwy	<0.2%
Gwerth iodid(Wijs)	<0.1%
Gwerth asid	<0.1%
Cynnwys dŵr (K Fischer)	<0.1%
Ymdoddbwynt	28 ± 2°C

### Sbectrw mamsugno nodweddiadol (trwch haen: d = 1 cm; Cyfeirnod: dŵr ar dymheredd o 35°C)

Tonfedd 290 (nm)	310	330	350	370	390	430	470	510
Trawsyriant (%)	15	37	64	80	88	95	97	98
Trawsyriant golau o 10% o leiaf ar 310 nm								

5. Pan ddefnyddir efelychydd bwyd brasterog a bennir ym mharagraff 4 mewn prawf ymfudiad a bod canlyniad y prawf hwnnw'n dangos nad yw deunydd neu eitem plastig yn cydymffurfio ag unrhyw derfyn ymfudiad a bennir yn rheoliad 9 neu yn yr Atodiadau, rhaid gwirio nad yw'r deunydd neu'r eitem plastig yn cydymffurfio â'r ymfudiad penodedig drwy brofi'r deunydd neu'r eitem hwnnw gan ddefnyddio olew olewydd os yw profi o'r fath yn dechnegol bosibl, ac os nad yw'r cyfryw brofi'n dechnegol bosibl bernir nad yw'r deunydd neu'r eitem plastig yn cydymffurfio â'r terfyn ymfudiad penodedig.